



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## RHAN 11: Y rhai sydd mewn sefydliadau diogel - Ailsefydlu Oedolion 27 Ionawr / 3 Chwefror 2016



#SSWbAct

# Y dull newydd

- Ar 6 Ebrill 2016 daw trefniadau 'gofal a chymorth' newydd dan Ddeddf 2014 i rym - mae'r ffocws ar:
  - 'bobl', gan gynnwys plant a'u teuluoedd, oedolion a gofalwyr
  - diwallu angen unigolyn am ofal a chymorth i wneud y gorau o'u llesiant ac annog annibyniaeth dinasyddion
  - cynyddu swm, amrywiaeth a'r defnydd o wasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned i wneud y gorau o annibyniaeth dinasyddion a galluogi rhagor o hunan-reolaeth dros eu canlyniadau lles

# Y dull newydd

Prif elfennau Deddf 2014 yw:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth
- Asesu/Meini Prawf Cymhwysedd
- Cynlluniau Gofal a Chymorth, ac Adolygiadau; a'r
- Gallu i gludo Gofal a Chymorth

Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i'r rhai sydd mewn sefydliadau diogel ac yr un mor berthnasol i'r oedolion hynny sy'n gadael sefydliadau diogel.

O fis Ebrill 2016 awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion mewn sefydliadau diogel yng Nghymru.

# Beth na chymhwyswyd

Mae'r Ddeddf wedi cael ei llunio ar sail gynhwysol ac eithrio na all oedolion a phlant yn y ddalfa:

–fod yn ofalwyr;

–derbyn taliadau uniongyrchol;

–mynegi dewis ynghylch eu llety tra byddan nhw yn y ddalfa ac eithrio at ddibenion cynllunio ar gyfer eu rhyddhau; a'r

–hawl i'w heiddo dderbyn gofal tra byddan nhw oddi cartref.

**Mae HOLL ddarpariaethau eraill y Ddeddf yn gymwys gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r gwasanaethau ataliol a llesiant.**

# Cyfleusterau diogel i oedolion gwryw yng Nghymru

Enw	Math	Poblogaeth	Awdurdod Lleol
<b>Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd</b>	Lleol / Ailsefydlu	Gwrywod dros 18 oed	Caerdydd
<b>Carchar Ei Mawrhydi Abertawe</b>	Lleol / Ailsefydlu	Gwrywod dros 18 oed	Abertawe
<b>Carchar Ei Mawrhydi y Parc</b>	Lleol / Hyfforddi / Ailsefydlu	Gwrywod dros 18 oed	Pen-y-bont ar Ogwr
<b>Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga</b>	Carchar hyfforddi - Safle trin troseiddwyr rhyw	Gwrywod dros 21 oed	Mynwy
<b>Carchar Ei Mawrhydi Prescoed</b>	Carchar agored / Ailsefydlu	Gwrywod dros 18 oed	Mynwy

Data NOMS fel yr oedd pethau ym mis Mehefin 2015

# Cyfleusterau oedolion yn Lloegr

## Gwryw

- Gallai oedolion gwryw o Gymru dreulio eu dedfryd yn unrhyw un o'r 108 carchar yn Lloegr, bron, yn ogystal â'r cyfleusterau hynny yng Nghymru. Mae nifer sylweddol yn mynd i Garchar Ei Mawrhydi Altcourse yn Lerpwl; Carchar Ei Mawrhydi yn Oakdale yn Wolverhampton a Charchar Stoke Heath yn Swydd Amwythig.

## Benyw

- Nid oes cyfleusterau carchar menywod yng Nghymru.
- Mae Carchar Ei Mawrhydi Eastwood Park (mwyafrif) yn Swydd Gaerloyw a Charchar Styal (lleiafrif) yn Swydd Gaer yn rhan o sefydliadau diogel y menywod
- Nid oes safleoedd cymeradwy i fenywod yng Nghymru, dim ond llety mechnïaeth cyfyngedig.

# Safleoedd wedi eu cymeradwyo yng Nghymru

Enw	Math	Poblogaeth	Awdurdod Lleol
Quay House	Safle Cymeradwy	Gwryw 18+ oed	Awdurdod Lleol Abertawe
Tŷ Newydd	Safle Cymeradwy	Gwryw 18+ oed	Awdurdod Lleol Gwynedd
Plas y Wern	Safle Cymeradwy	Gwryw 18+ oed	Awdurdod Lleol Wrecsam
Manderville House	Safle Cymeradwy	Gwryw 18+ oed	Awdurdod Lleol Caerdydd

Data NOMS fel yr oedd pethau ym mis Mehefin 2015

# Llety mechnïaeth yng Nghymru

<b>Math</b>	<b>Gwryw/Benyw</b>	<b>Awdurdod lleol</b>
Llety Mechnïaeth	3 lle i wrywod	Pen-y-bont ar Ogwr
Llety Mechnïaeth	4 lle i wrywod	Caerdydd
Llety Mechnïaeth	2 lle i fenywod	Caerdydd
Llety Mechnïaeth	3 lle i wrywod	Llanelli
Llety Mechnïaeth	3 lle (dros dro) i fenywod	Merthyr Tudful
Llety Mechnïaeth	3 lle i wrywod	Casnewydd
Llety Mechnïaeth	2 lle i wrywod	Casnewydd
Llety Mechnïaeth	3 lle i wrywod	Abertawe
Llety Mechnïaeth	3 lle i wrywod	Abertawe
Llety Mechnïaeth	3 lle i fenywod	Wrecsam
Llety Mechnïaeth	3 lle i wrywod	Wrecsam

Data NOMS fel yr oedd pethau ym mis Mehefin 2015



# Oedolion mewn sefydliadau diogel

## Oedolion

- Yr awdurdod lleol yng Nghymru lle mae'r carchar wedi ei leoli sy'n gyfrifol am gwrdd â gofal a chymorth y carcharor, pa un ai a ydyn nhw'n dod o Gymru, Lloegr neu'n perthyn i genedligrwydd arall.
- Mewn trefniant dwyochrog bydd anghenion gofal a chymorth oedolion o Gymru sydd yn y carchar yn Lloegr yn cael eu diwallu dan Ddeddf Gofal 2014, a bydd yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol lle maen nhw'n cael eu cadw.
- **FODD BYNNAG**, pan fydd cynllun i ryddhau carcharorion a'u hadsefydlu yn y gymuned, bydd y ddyletswydd yn symud i'r awdurdod lleol lle maen nhw'n bwriadu adleoli a bydd trefniadau cludadwyedd yn berthnasol.

# Trefniadau cludadwyedd

- Mae cludadwyedd yn cael ei gynnwys yn Rhan 4 (Diwallu Anghenion) a'r bwriad yw sicrhau parhad gofal.
- Mae'n berthnasol i'r rhai hynny sy'n derbyn 'gofal a chymorth' pan fyddan nhw'n symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Mae rhan 4 yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod sy'n 'anfon' roi gwybod i'r awdurdod sy'n 'derbyn' am y symud arfaethedig a sicrhau bod gwybodaeth a geir yn yr asesiad a'r cynllun gofal a chefnogaeth ar gael ar unwaith i'r awdurdod newydd.

# Trefniadau cludadwyedd

- Mae'n **rhaid** i'r awdurdod derbyn gynnal asesiad newydd o anghenion, gan ystyried unrhyw newid sy'n codi yn sgil symud.
- **Rhaid** i awdurdod lleol gynnal y darpariaethau mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth os nad yw asesiad newydd wedi cael ei wneud cyn symud, nes bydd asesiad newydd yn cael ei wneud.
- Mae canllawiau atodol hefyd yn nodi'r rolau ailsefydlu a throsglwyddo.

# Trefniadau trawsffiniol

- Mewn rhai achosion, bydd oedolion sefydliadau diogel yn symud ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr - trosglwyddiadau rhwng carchardai neu ailsefydlu (Benywod).
- Er nad yw'r trefniadau cludadwyedd yng Nghymru, na'r trefniadau parhad gofal yn Lloegr yn gymwys yn ffurfiol; mae'r gweinyddiaethau datganoledig a Whitehall wedi cytuno ar ddull cyffredin.

Egwyddorion parhad gofal trawsffiniol yn y Deyrnas

Unedig: Atodiad 2, Rhan 4 y cod ymarfer.

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4cy.pdf>

# Rhan 11 - Cod Ymarfer

Mae cod ymarfer Rhan 11 yn nodi...

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

Dolen Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgcyrmru.org.uk/y-ddeddf/?force=2>

Er mwyn cefnogi ymhellach y rhai sy'n gweithredu Rhan 11 mae Arweiniad Atodol a dau lwybr cenedlaethol (plant ac oedolion) wedi cael eu datblygu gyda mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid.

# Rhan 11 - Cod Ymarfer

Mae'r cod ymarfer yn nodi...

- sut mae awdurdodau lleol yn bodloni anghenion gofal a chymorth oedolion tra maen nhw mewn sefydliadau diogel;
- sut mae'n rhaid i awdurdodau lleol fodloni anghenion gofal a chymorth y rhai sy'n ailsefydlu yn y gymuned, gan gynnwys byw mewn safleoedd cymeradwy a llety mechniaeth;
- sut mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda rhanddeiliaid eraill i ddarparu'r trefniadau gofal a chymorth hyn - datblygu Memorandwm Dealltwriaeth

# Rhan 11 - Cod Ymarfer

- Mae tri PSI a ddatblygwyd ar y cyd â NOMS i gefnogi'r Ddeddf Gofal / Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant:
  - PSI15/2015 Gofal Cymdeithasol Oedolion
  - PSI16/2015 Diogelu Oedolion
  - PSI17/2015 Carcharorion yn cynorthwyo carcharorion eraill
- Mae PSI 16/2015 diogelu oedolion yn cael ei ddiwygio – templed ar gyfer Memorandwm Dealltwriaeth
- Mae gan Fyrddau Diogelu Oedolion gyfrifoldeb i amddiffyn oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth ac sy'n profi risg, camdriniaeth neu esgeulustod.
- Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaergol a Chwmni Adsefyflu Cymunedol Cymru yn bartneriaid statudol ar fyrddau diogelu oedolion

# Gweithio gyda phartneriaid eraill

- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ganfod ffyrdd o weithio gyda'r sectorau a ganlyn:
- Prawf – Gwasanaethau Prawf Cenedlaethol; Cwmni Adsefyflu Cymunedol Cymru, a rheolwyr eiddo cymeradwy
- Gofal iechyd – mewn safleoedd diogel ac yn y gymuned;
- Cydweithwyr yn y sector tai awdurdodau lleol – dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014);
- Asiantaethau trydydd sector;
- Sefydliadau diogel yng Nghymru, ac yn Lloegr



# Y dasg allweddol brynhawn heddiw

Bydd angen i ni ystyried ... pwysigrwydd:

- deall pa asiantaethau eraill sy'n rhan o'r gwaith;
- a oes angen i staff gwasanaethau cymdeithasol addasu eu gwaith i ddarparu gofal a chymorth i'r rhai mewn safleoedd cymeradwy / llety mechnïaeth;
- a oes angen i staff gwasanaethau cymdeithasol addasu eu gwaith i ddarparu gofal a chymorth i'r rhai sy'n paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau; ar ôl eu rhyddhau a byw yn y gymuned;
- Beth arall y mae angen ei wneud, a chan bwy, i gyflawni'r uchod?